



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

Mehefin 1^{af} 2010

Gwobrau yn Cydnabod Rhagoriaeth yn y Gymraeg

Fe gipiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y rhan fwyaf o'r Gwobrau'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn ddiweddar.

Cyflwynwyd pum gwobr i'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei ymrwymiad i wella gwasanaethau dwyieithog ar draws y sefydliad. Nod y Gwobrau yw rhannu arfer da a gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog ym maes gofal iechyd gan ganolbwyntio ar brofiad defnyddwyr.

Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Rydym wrth ein bodd yn derbyn y gwobrau hyn. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaeth dwyieithog ac mae'r gwobrau hyn yn ffordd dda o gydnabod ymdrechion ein staff i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth. Er ein bod yn falch iawn o'r llwyddiannau hyn, rydym hefyd yn ymwybodol bod llawer mwy o waith i'w wneud a bydd hyn yn ein sbarduno i barhau â'n hymdrechion i wella'r gwasanaeth."

Fe gipiodd y Bwrdd Iechyd y gwobrau yn y categorïau canlynol:

Gwaith ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol - Canolfan Wybodaeth Seren Wib Macmillan Ysbyty Maelor Wrecsam

Mae cleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser yn gallu dod i ganolfan Macmillan yn Ysbyty Maelor Wrecsam am gefnogaeth a gwybodaeth. Roedd Pam Wedley, y swyddog sy'n rhedeg y ganolfan wedi gweld bwlch yn y gwasanaeth am fod nifer o gleifion yn gofyn am wybodaeth am faterion lles. Drwy gydweithio gyda'r adran les yng Nghyngor Wrecsam mae wedi gallu darparu taflenni dwyieithog ar gyfer y ganolfan a chael swyddog lles i ddod i'r ganolfan i roi rhagor o wybodaeth. Fel dysgwraig rugl, mae Pam ar gael i gynghori unrhyw glaf sy'n siarad Cymraeg ac mae'n gallu cael pobl i rannu gwybodaeth am eu sefyllfa ac os ydynt angen cymorth lles yn haws yn eu hiaith gyntaf.

Cafodd y ganolfan wybodaeth ail wobwr yn y categorï 'Ymarfer Blaengar yn canolbwyntio ar elfennau gofal personol' Mae staff yn gwneud yn siw'r fod pob claf yn cael cynnig cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg a'i bod yn nodi dewis iaith pawb sy'n galw i mewn yno a bod y wybodaeth yma yn cael ei gadw gan Macmillan. Mae'r gwaith yma wedi lledu i'r holl wasanaethau canser yn



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

yr ysbyty sydd nawr yn cofnodi ac ymateb i ddewis iaith cleifion drwy gael rhestr o staff sy'n siarad Cymraeg a threfnu rota y wardiau fel bod siaradwr Cymraeg ar gael bob amser.

Twf – Annog magu plant yn ddwyieithog - Ymwelwyr Iechyd Môn

Mae Ymwelwyr Iechyd o Ynys Môn yn gweithio'n agos gyda'r swyddog TWF Bethan Jones ac wedi ei chroesawu hi i mewn i'w grwpiau clinig babi a grwpiau mam a phlentyn. Mae grwpiau'n cael eu cynnal bob mis ar y cyd rhwng Twf a'r ymwelwyr iechyd ac mae'r rhieni a'r plant yn ymateb yn dda iawn. Mae yna grwpiau canu a rhannu rhigwm sy'n rhoi hyder i rieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r ymwelwyr iechyd drafod gyda'r rhieni y manteision o fagu plant yn ddwyieithog.

Tîm o uwch reolwyr sy'n hyrwyddo creu sefydliad dwyieithog - Prif Weithredwr, Mary Burrows a'r Cadeirydd, Michael Williams

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu gwasanaethau iechyd cynhwysfawr i holl boblogaeth gogledd Cymru. Fe benderfynodd y Prif Weithredwr o'r cychwyn cyntaf i ddangos arweiniad cryf o ran y Gymraeg a mynd ati i geisio creu diwylliant dwyieithog o fewn y Bwrdd. Mae wedi dangos arweiniad drwy sicrhau bod datganiad ymrwymiad i'r iaith Gymraeg yn rhan graidd o Gynllun Strategol y sefydliad a bo'r Gymraeg yn cael ei ystyried wrth i unrhyw bolisi gael ei lunio. Mae hi'n dangos arweiniad i aelodau'r Bwrdd drwy gychwyn pob cyfarfod yn Gymraeg ac wedi ymdrechu i ddysgu Cymraeg gan gynnwys mynd ar wythnos o wersi i Nant Gwrtheyrn yn ystod ei gwyliau. Mae hi'n disgwyl yr un math o ymrwymiad gan aelodau'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr ac mae hyn yn rhoi neges bositif i'r staff ac yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd darparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r Cyfarwyddwyr yn derbyn gwersi Cymraeg ddwywaith y mi ser mwyn cynyddu eu defnydd o'r iaith.

Dysgwr Cymraeg y flwyddyn am fwy na dwy flynedd - Sarah Roberts

Mae Sarah Roberts yn Therapydd Galwedigaethol yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dechrau dysgu Cymraeg ers 2007. Cafodd ei magu yn Bolton ac roedd hi'n siarad Almaeneg gartref am fod ei thad yn Almaenwr. Ar ôl symud i Gymru gyda'i gwr penderfynodd ddysgu Cymraeg er mwyn gallu siarad gyda theulu ei gwr a hefyd er mwyn helpu gyda'i gwaith. Am fod dros hanner ei chleifion yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf mae gallu asesu a chynllunio triniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn hanfodol iawn iddi. Mae hi wedi cael ymateb da iawn gan gleifion ac yn gweld bod siaradwyr Cymraeg yn fwy hapus i drafod problemau personol yn eu hiaith gyntaf. Mae hi hefyd yn siarad Cymraeg gyda staff ac mae cyn-enillydd y wobr hon sydd yn gweithio yn yr un adran â hi wedi ei henwebu!

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a Trystan Pritchard ar (01248) 384 938.

1st June 2010

Welsh Language Excellence Recognised at Awards

The Betsi Cadwaladr University Health Board swept the board at the recent Welsh Language in Healthcare Awards.

The Health Board was presented with five awards in recognition of its commitment to improving bilingual services across the organisation. The aim of the Awards is to share good practice and improve bilingual provision in healthcare with the emphasis on the experience of users.

Mary Burrows, Chief Executive of the Betsi Cadwaladr University Health Board said: "We are delighted to have been presented with these awards. The organisation is committed to developing a bilingual service and these awards are a great way of recognising the efforts for our staff who strive to provide the best possible service in the service user's language of choice. Whilst we are very happy to be able to celebrate these successes, we are also aware that there is further work to be done and this will provide further impetus as we continue our efforts to improve the service."

The Health Board won the awards in the following categories:

Partnership work between the health service and local authorities' social services - Macmillan Shooting Star Information Centre – Wrexham Maelor Hospital

Patients who have had a diagnosis of cancer can drop into the Macmillan Centre in Wrexham Maelor Hospital for support and information. Pam Wedley, the member of staff running the centre saw a gap in service as a number of patients were asking for information on welfare issues. Through working with the welfare team in Wrexham Council they have been able to develop bilingual leaflets for the centre and a welfare officer comes in to give more information. As a fluent learner, Pam is available to advise any patient who speaks Welsh and people have been able to confide in her in their first language and talk to her more openly than they would in English.

The Shooting Star Centre also won a second award in the Innovative practice focusing on elements of personal care category. Staff at the centre make sure that every patient is able to receive emotional support and information in English or Welsh. The language choice of patients is noted and this work has influenced all cancer services in the hospital so that they are able to respond to language choice, maintain a list of Welsh speaking staff and ensure that staff rotas are arranged so that a Welsh speaker is always on hand.

Twf – to encourage raising children bilingually - Anglesey Health Visitors

Health Visitors on Anglesey are working closely with the TWF field officer and have welcomed her into their baby clinics and mother and baby groups. The groups are held every month and the health visitors and the reaction of parents and children has been very positive. There are singing groups and 'rhannu rhigwm' (learning rhymes) and this gives the parents the confidence to use Welsh with their children. It also gives health visitors an opportunity to discuss with parents the benefits of raising children bilingually.

Senior Management team which promotes the establishment of a bilingual organisation Chief Executive Mary Burrows and Chair Michael Williams

The Chief Executive has shown strong leadership in terms of the Welsh language and to create a bilingual culture within the LHB. A commitment statement on the Welsh language is a core part of the organisation's strategic plan and the Welsh language is considered whilst developing any policies. The Chief Executive demonstrates leadership to the Board members by opening every meeting in Welsh and has made the effort to learn some Welsh by attending a week's course in Nant Gwrtheyrn during her holidays. She expects the same commitment from Board members and Directors and this strong message to staff emphasises the importance of providing bilingual services to patients.

Welsh Learner of the Year for more than two Years - Sarah Roberts

Sarah is an Occupational Therapist in Ysbyty Gwynedd and has started learning Welsh since 2007. She was raised in Bolton and spoke German at home as her father was from Germany. After moving to Wales with her husband she decided to learn Welsh so that she could speak Welsh with her husband's family and also to help with her work. As around half her patients are first language Welsh speakers, being able to assess and plan treatment through the medium of Welsh is essential for her. She has had a very positive response from patients and can see that Welsh speakers are much happier to discuss personal problems in their first language. She also speaks Welsh with the staff and was nominated by a colleague from the same department who is a former winner of this award!

ENDS

For more information, contact Trystan Pritchard on (01248) 384 938